Cofrestriad awtomatig mewn cynllun pensiwn: Dyletswyddau newydd i gyflogwyr

Mehefin 2011

Am y tro cyntaf, bydd rhaid i bob cyflogwr gofrestru eu gweithwyr mewn cynllun pensiwn a chyfrannu ar eu rhan.

Bydd rhaid i weithwyr gyfrannu, yn ogystal, oni bai eu bod yn dewis eithrio.

Disgwylir i gofrestru awtomatig arwain at filiynau o bobl yn cynilo ar gyfer pensiwn am y tro cyntaf.

Cyflwyno cofrestru awtomatig yw'r newid mwyaf radical ym mholisi pensiynau am ddegawdau. Ar gyfer llawer o gyflogwyr bydd yn arwain at gryn dipyn o gost ychwanegol mewn cyfraniadau a gwaith gweinyddu.

Daw'r ddyletswydd i gofrestru gweithwyr yn awtomatig i mewn fesul camau rhwng Hydref 2012 a Chwefror 2016, gan ddechrau gyda'r cyflogwyr mwyaf. Nid oes unrhyw eithriadau, hyd yn oed ar gyfer y cyflogwyr lleiaf.

Rhaid i gynllun budd-daliadau wedi'i ddiffinio (DB) a ddefnyddir ar gyfer cofrestru awtomatig ddarparu lefel minimwm o fudd-daliadau. Mewn cynllun cyfraniad wedi'i ddiffinio (DC) ceir cyfraniad cyflogwr minimwm. Bydd cyflogwr yn gallu dewis darparu cynllun DC.

Mae angen cryn waith eto cyn y cwblheir y ddeddfwriaeth er mwyn creu'r ddyletswydd cofrestru awtomatig. Mae'r llywodraeth yn dal i ystyried cynigion a wnaethpwyd gan yr arolwg a gomisiynodd pan ddaeth i rym. Mae amlinell fras y ddyletswydd yn eglur ond erys materion ansicr ynghylch llawer iawn o'r manylion.

Dyletswydd y cyflogwr

Bydd rhaid i gyflogwr gofrestru **dalwyr swyddi cymwys** yn awtomatig mewn **cynllun cymhwyso** (oni bai eu bod eisoes yn aelodau o gynllun o'r fath).

Mae'r rhain ymhlith nifer o ymadroddion pwysig sy'n ymddangos dro ar ôl tro.

Dyma eu hystyr.

Yn fras, mae **daliwr swydd** yn rhywun sydd:

- wedi'i gyflogi dan gontract cyflogaeth neu gontract gwasanaethau personol ac sydd, fel rheol, yn gweithio ym Mhrydain Fawr,
- yn 16 oed o **leiaf** ond heb gyrraedd 75 oed ac
- yn derbyn **enillion cymhwyso**.

Cynhwysir cyfarwyddwyr cyflogedig a staff dros dro. Cynhwysir, yn ogystal, gweithwyr asiantaeth a delir gan y cyflogwr.

Mae daliwr **swydd cymwys** yn *ddaliwr swydd* sydd:

- yn 22 oed o leiaf ond sydd o dan oedran pensiwn y wladwriaeth ac
- yn ennill cyflog sy'n gyfwerth â neu'n fwy na'r trothwy treth incwm* (£7,475 y flwyddyn yn nhermau heddiw).

Mae **enillion cymhwyso**'n golygu'r band rhwng £5,715 a £38,185 y flwyddyn (yn nhermau heddiw). Cynhwysir symiau sy'n codi a gostwng fel comisiwn, bonysau a goramser, a thaliadau statudol penodol fel tâl mamolaeth.

Mae **cynllun cymhwyso**'n gynllun pensiwn galwedigaethol neu bersonol (yn ôl dewis y cyflogwr) sy'n bodloni prawf ansawdd (gweler isod). Gall cynllun pensiwn galwedigaethol fod yn DB neu'n DC (neu'n gymysgryw).

Rhaid i weithdrefnau cofrestru awtomatig cyflogwr beidio â mynnu fod daliwr swydd yn chwarae unrhyw ran weithredol wrth ymuno â'r cynllun e.e. gwneud dewis ynghylch unrhyw beth na darparu gwybodaeth. Rhaid i unrhyw un a gofrestrir yn awtomatig dderbyn gwybodaeth benodedig.

Prawf ansawdd ar gyfer *cynllun cymhwyso*

Mae'r ddeddfwriaeth gyfredol yn gosod allan profion ansawdd ar gyfer *cynlluniau cymhwyso* DB a DC ond mae'r llywodraeth yn edrych ar ddulliau o symleiddio'r prawf DC.

Prawf ansawdd – deddfwriaeth gyfredol

Yn y tymor hir, y prawf ansawdd ar gyfer cynllun galwedigaethol DC yw:

- ei bod yn ofynnol i'r cyflogwr gyfrannu o leiaf 3% o *enillion cymhwyso'r daliwr swydd* a
- bod cyfanswm y cyfraniad gan y cyflogwr a'r *daliwr swydd* yn dod i o leiaf 8% o'r *enillion cymhwyso*.

---

* Cynnig o'r arolwg yn Hydref 2010 y disgwylir i'r llywodraeth ei fabwysiadu.

Nodyn Cyfarwyddo

Burges Salmon LLP, One Glass Wharf, Bristol BS2 0ZX
Ffôn: +44 (0) 117 939 2000 Ffacs: +44 (0) 117 902 4400

Chancery Exchange, 10 Furnival Street, London EC4A 1AB
Ffôn: +44 (0) 20 7685 1200 Ffacs: +44 (0) 20 7685 1266

www.burges-salmon.com

BURGES SALMON

Mae Burges Salmon LLP yn Bartneriaeth Atebolrwydd Cyfyngedig wedi'i gofrestru yng Nghymru a Lloegr (rhif LLP OC307212) a chaiff ei reoleiddio gan yr Awdurdod Rheoleiddio Cyfreithwyr. Gellir archwilio rhestr o'n haelodau , y mae pob un ohonynt yn gyfreithiwr, yn ein swyddfa gofrestredig : One Glass Wharf, Bryste BS2 0ZX.

Ond am y pum mlynedd gyntaf mae'r cyfraniadau minimwm yn is.

Gweler isod.

Mae'r prawf ansawdd ar gyfer cynllun pensiwn personol yn debyg.

Yn fras, y prawf ar gyfer cynllun galwedigaethol DB yw:

- bod y daliwr swydd mewn cyflogaeth sydd wedi'i gontractio allan neu
- bod y cynllun, ar gyfer o leiaf 90% o'i aelodau, yn darparu budd-daliadau pan gyrhaeddir 65 oed sy'n gyfwerth, yn fras, â 1/120fed ar gyfer bob blwyddyn o wasanaeth (uchafswm o 40) o gyfartaledd yr enillion cymhwyso dros y tair blwyddyn dreth ddiwethaf o wasanaeth (plws codiadau statudol).

Mae cynllun CARE yn bodloni'r prawf ansawdd os yw naill ai'n (a) ail-brisio budd-daliadau cronedig ar isafswm o'r CPI (mwy na thebyg) wedi'i gapio ar 2.5% tra bod yr aelod yn parhau i fod mewn gwasanaeth pensiynadwy neu'n (b) caniatáu ar gyfer hyn fel mater o ddisgresiwn ac yn cyllido ar ei gyfer.

Mae'n debygol taw actwari'r cynllun fydd yn ardystio fod cynllun DB yn bodloni'r prawf.

Mae'n bosibl y bydd cyflogwr â chynllun sydd eisoes yn bodloni'r prawf ansawdd yn penderfynu ei ddefnyddio ar gyfer cofrestru awtomatig.

Prawf ansawdd – cynnig wedi'i symleiddio ar gyfer cynlluniau DC

Nifer fach iawn o gynlluniau DC cyfredol fydd yn defnyddio diffiniad o dâl sy'n agos i *enillion cymhwyso*. Dyma pam y cynigiodd yr arolwg y dylid caniatáu cynllun i fodloni'r prawf ansawdd os yw'n gwneud cyfraniadau minimwm yn ofynnol ar unrhyw un o'r seiliau canlynol:

- 9% o dâl pensiynadwy ni waeth sut y caiff ei ddiffinio, gan gynnwys 4% oddi wrth y cyflogwr,
- 8% o dâl pensiynadwy, gan gynnwys 3% oddi wrth y cyflogwr, ar yr amod bod tâl pensiynadwy yn rhoi cyfrif am o leiaf 85% o gyfanswm y gyflogres neu
- 7% o dâl pensiynadwy, gan gynnwys 3% oddi wrth y cyflogwr, ar yr amod bod y gyflogres gyfan yn bensiynadwy*.

Byddai'r math hwn o brawf yn golygu y gallai llawer o gyflogwyr ddefnyddio eu cynlluniau DC cyfredol ar gyfer cofrestru awtomatig gydag ychydig iawn o newidiadau.

Cyflwyno fesul camau

Cyflwynir cofrestru awtomatig fesul camau.

Yn gyntaf, ceir "dyddiad cyflwyno" rhwng Hydref 2012 a Chwefror 2016 pryd y daw cyflogwr dan ddyletswydd am y tro cyntaf i gofrestru staff yn awtomatig. Po fwyaf y gweithlu, po gynharaf y dyddiad.

Yn ail, unwaith bod rhywun wedi'i gofrestru, mae'r gyfradd gronnu minimwm yn codi'n raddol.

Dyddiadau cyflwyno

Mae dyddiad cyflwyno cyflogwr yn dibynnu ar faint o bobl sydd yn ei gynllun PAYE ar 1 Ebrill 2012.

Gallwch ganfod rhestr lawn o'r dyddiadau ar wefan y Rheolydd Pensiynau •; dyma sampl ohonynt:

120,000 neu fwy	1 Hydref 2012
6,000 - 9,999	1 Ebrill 2013
800 - 1,249	1 Hydref 2013
150 – 239	1 Mai 2014
< 50	Dyddiadau rhwng 1 Mawrth 2014 ac 1 Chwefror 2016

Fodd bynnag, gall cyflogwr ohirio cofrestru awtomatig am hyd at dri mis*. Mae'r hawddfraint weinyddol hon yn berthnasol mewn perthynas â *dalwyr swydd* sydd yn y gwaith ar y dyddiad cyflwyno a'r rheiny sy'n dyfod yn gymwys ar gyfer cofrestru awtomatig wedi hynny. Yn ystod y gohiriad gall y rheiny yr effeithir arnynt ddewis i ymuno â'r cynllun a derbyn cyfraniadau oddi wrth y cyflogwr.

Mae gan gyflogwyr newydd sy'n dyfod yn weithredol yn Ebrill 2012 neu wedi hynny ddyddiadau cyflwyno o Fawrth 2016 ymlaen.

Croniad pensiwn: DC a chynlluniau pensiwn personol Cyrhaeddir y cyfraniad minimwm tymor hir i gynllun DC o 8% yn raddol dros gyfnod cychwynnol o bum mlynedd.

	10/12 - 9/16 (4 blynedd)	**10/12 - 9/16 (4 blynedd)**	**10/12 - 9/16 (4 blynedd)**
Cyfraniad minimwm y cyflogwr	1%	2%	3%
Cyfraniad aelod (+ rhyddhad treth) a/neu gyfraniad ychwanegol y cyflogwr	1%	3%	5%
Cyfanswm cyfrannu minimwm	2%	5%	8%

Mae'r canrannau minimwm yn berthnasol i *enillion cymhwyso* aelod (ac nid yn unig i enillion sydd dros ben y trothwy treth incwm. Gall cyflogwyr ac aelodau gyfrannu mwy na'r minimwm.

Croniad pensiwn: Cynlluniau DB

Mae gan gyflogwr sydd â *chynllun cymhwyso* sy'n DB y dewis o ohirio cofrestru awtomatig nes Hydref 2016 (mwy na thebyg) ar gyfer unrhyw *ddaliwr swydd cymwys* a oedd eisoes yn y swydd ac yn gymwys i ymuno â'r cynllun ar ddyddiad cyflwyno'r cyflogwr ac sy'n dal i fod yn gymwys wedi hynny.

• www.thepensionsregulator.gov.uk/pensions-reform/duty-dates-timeline.aspx.

* Cynnig o'r arolwg yn Hydref 2010 y disgwylir i'r llywodraeth ei fabwysiadu.

Dewis ymuno

Gall *dalwyr swyddi* nad ydynt yn ddarostyngedig i gofrestru awtomatig (oherwydd eu bod tu allan i'r band oedran, dyweder) fynnu bod eu cyflogwyr yn eu cofrestru mewn cynllun cymhwyso. Rhaid i'r cyflogwr roi gwybod iddynt am yr hawl hwn a rhaid iddo gyfrannu yn yr un modd ag ar gyfer rhywun a gofrestrwyd yn awtomatig

Gall gweithwyr nad ydynt yn derbyn enillion cymhwyso hefyd fynnu bod eu cyflogwr yn eu cofrestru mewn cynllun pensiwn. Rhaid rhoi gwybod iddynt am yr hawl hwn ond nid oes angen i'r cynllun fod yn *gynllun cymhwyso* ac nid oes angen i'r cyflogwr gyfrannu.

Dewis eithrio

Gall *daliwr* swydd a gofrestrwyd yn awtomatig ddewis eithrio trwy roi hysbysiad o hyn o fewn mis. Rhagnodir geiriad yr hysbysiad ac mae'n cynnwys rhybuddion ynghylch canlyniadau eithrio o gynllun.

Rhaid i'r *daliwr* swydd gaffael y ffurflen o'r cynllun a'i chwblhau. Mae'n ymddangos y dyluniwyd y weithdrefn lem hon er mwyn anghymell y rhai llai penderfynol. Rhaid ad-dalu cyfraniadau'r *daliwr swydd*.

Ail-gofrestru awtomatig

Rhaid i *ddaliwr swydd* sydd wedi dewis eithrio o'r cynllun gael ei ail-gofrestru'n awtomatig o fewn tri mis* (y naill ochr neu'r llall) o drydydd pen-blwydd dyddiad cyflwyno'r cyflogwr. Ac felly ymlaen bob tair blynedd os ydynt yn parhau i ddewis peidio ag ymuno. Ond nid yw hyn yn berthnasol i rywun a ddewisodd eithrio yn ystod y deuddeng mis cyn dyddiad ail-gofrestru.

NEST

Mae'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol Cynilion Cyflogaeth neu NEST yn gynllun DC galwedigaethol a sefydlwyd o dan ddeddfwriaeth fel dewis ar gyfer ymdrin â chofrestru awtomatig. Cynlluniwyd hyn yn bennaf ar gyfer y cyflogwyr llai y mae'r diwydiant pensiynau wedi ei chael yn anodd darparu'n ddarbodus ar eu cyfer.

I gychwyn, rhoddir cap o £4,300 y flwyddyn (yn nhermau heddiw) ar gyfraniadau ac ni chaniateir trosglwyddiadau (i mewn nac allan).

Mesurau gwrth-osgoi

Ceir mesurau cadarn er mwyn rhwystro ymdrechion i osgoi'r ddyletswydd i gofrestru'n awtomatig. Ac, o bosib, cosbau llym am beidio â chydymffurfio. Yn amlwg, mae'r llywodraeth yn bwriadu i gofrestru awtomatig weithio.

Gwaherddir cyflogwyr rhag:

- mynegi (yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol) wrth recriwtio y gallai'r canlyniad ddibynnu ar b'un ai medrai ymgeisydd ddewis eithrio o gofrestru awtomatig,
- annog *dalwyr swyddi* i eithrio,
- gwneud unrhyw beth er mwyn terfynu aelodaeth weithredol *daliwr swydd* mewn cynllun a
- rhoi triniaeth anffafriol i ddaliwr swydd oherwydd eu bod wedi mynnu eu hawliau cofrestru awtomatig.

Yn ychwanegol:

- mae diswyddo gweithiwr am fynnu eu hawliau yn cyfrif fel diswyddiad annheg at bwrpasau cyfraith cyflogi ac
- mae cytundeb ble mae rhywun yn contractio allan o'u hawliau cofrestru awtomatig yn ddi-rym (gydag eithriadau cyfyngedig).

Gall dirwyon a charchar ddilyn methiant i gydymffurfio.

Cosbau ariannol

Mae gan y Rheolydd Pensiynau'r prif gyfrifoldeb dros orfodi. Mae'n datgan yn glir y bydd yn dibynnu, i gychwyn, ar anogaeth ac addysg, ac yn troi at gosbi fel dewis olaf yn unig. Mae ei arfau'n cynnwys rhybuddion cydymffurfio (sy'n mynnu fod cyflogwr yn cywiro methiant) a rhybuddion cyfraniadau nas talwyd. Gall gymhwyso mwy o bwysau gyda rhybudd cosb sefydlog (uchafswm o £50,000) neu gosb esgynnol o hyd at £10,000 y dydd

Cosbau troseddol

Mae cyflogwr yn cyflawni tramgwydd troseddol os yw'n methu'n fwriadol â chofrestru neu ail-gofrestru rhywun yn awtomatig neu'n gwrthod rhoi 'r hawl iddynt ddewis ymuno. Gall hyn arwain at ddirwy droseddol a/neu garchar.

Ble mae'r cyflogwr yn gwmni, mae swyddog (e.e. cyfarwyddwr) neu uwch reolydd a ganiataodd, neu a gyd-ddwynodd, y methiant, yn euog o'r un drosedd â'r cwmni.

Mae'r drefn sancsiynau wedi'i hategu gan ofynion eang eu rhychwant bod cyflogwyr yn cadw cofnodion ac yn darparu gwybodaeth i'r Rheolydd.

Pwyntiau gweithredu i gyflogwyr

- Pryd mae eich dyddiad cyflwyno? Gwiriwch ar wefan y Rheolydd Pensiynau.
- Sut fyddwch chi'n cyllidebu ar gyfer y cynnydd mewn costau ac arolygon tâl blynyddol?
- A oes pobl sy'n debygol o ddymuno eithrio o'r cynllun er mwyn diogelu eu sefyllfa dreth e.e. oherwydd bod ganddynt hawl i 'warchodaeth uwch" yn dilyn y newidiadau treth Diwrnod A.
- A fydd eich cynllun cyfredol yn cyfrif fel *cynllun* cymhwyso? Os na fydd, a ellir ei ddiwygio? Neu a fyddwch yn creu cynllun newydd yn benodol ar gyfer cofrestru awtomatig? Os yw hwn yn gynllun DC, sut ewch chi ati i ddethol opsiwn buddsoddi rhagosodedig addas? Neu a fyddwch chi'n defnyddio NEST fel eich cynllun?
- Sut fydd angen i'ch arferion a phrosesau Adnoddau Dynol newid e.e. a fydd angen meddalwedd newydd arnoch er mwyn dilyn trywydd y data (e.e. oedran ac *enillion cymhwyso*) sy'n datgan

* Cynnig o'r arolwg yn Hydref 2010 y disgwylir i'r llywodraeth fabwysiadu.

pryd mae'n rhaid i chi gofrestru neu ail-gofrestru rhywun yn awtomatig? Sut fyddwch chi'n cyfathrebu ynghylch pensiynau wrth recriwtio ac ymhellach ymlaen?

- Beth yw'r gost debygol o weithredu cofrestru awtomatig (ar wahân i gyfraniadau?
- Ydych chi wedi dechrau datblygu amserlen ar gyfer cofrestru awtomatig?
- Mae llawer o ddeddfwriaeth a chyfarwyddyd rheoliadol y bwriedir ei gyhoeddir dros y misoedd nesaf. Ydych chi wedi trefnu i unigolyn neu dîm gael eu cyfarwyddo er mwyn iddynt ymgyfarwyddo â hyn?
- Gan gymryd golwg ehangach, a yw'n bryd i chi gynnal arolwg strategol o'ch trefniadau pensiwn ac arferion cyflogi? A ydynt yn addas ar gyfer y pwrpas, o ystyried cofrestru awtomatig, dileu'r oedran ymddeol rhagosodedig, oedran pensiwn y wladwriaeth sy'n codi, yr angen am fywydau gwaith hwy a mwy o ddiddordeb mewn ymddeol hyblyg?

Mwy o wybodaeth

Os hoffech chi fwy o wybodaeth, cysylltwch, os gwelwch yn dda, â'ch person cyswllt arferol yn ein tîm pensiynau neu gyda **Marcus Hellyer ar 0117 902 7789 neu yn marcus.hellyer@burges-salmon.com**.

© Burges Salmon LLP 2011. Cedwir pob hawl. Gellir atgynhyrchu detholiadau, gyda'n caniatâd o flaen llaw, ar yr amod y cydnabyddir y ffynhonnell.

Ymwadiad: Gwybodaeth gyffredinol yn unig a roddir yn y nodyn cyfarwyddo hwn ac ni fwriedir iddo fod yn ddatganiad trwyadl o'r gyfraith. Er i ni gymryd gofal dros gywirdeb yr wybodaeth, ni ddylech ddibynnu arni fel cyngor cyfreithiol. Nid ydym yn derbyn unrhyw atebolrwydd tuag at unrhyw un sydd yn dibynnu ar ei gynnwys.

Diogelu Data: Prosesir eich manylion a'u cadw'n ddiogel yn unol â Deddf Diogelwch Data 1998. Gallwn ddefnyddio eich gwybodaeth bersonol er mwyn anfon gwybodaeth i chi ynghylch ein cynhyrchion a'n gwasanaethau, llythyrau newyddion a diweddariadau yn y gyfraith; er mwyn eich gwahodd i'n seminarau hyfforddi a digwyddiadau eraill; ac er mwyn dadansoddi gan gynnwys cynhyrchu adroddiadau marchnata. Er mwyn ein helpu i gadw'n cronfa ddata'n gyfredol, rhowch wybod i ni, os gwelwch yn dda, os yw eich manylion cysylltu'n newid neu os nad ydych yn dymuno derbyn unrhyw ddeunydd marchnata pellach trwy gysylltu â marketing@burges-salmon.com.

BRM0408 07 11